OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2005 Rhif 663 (Cy.53)

# GWASANAETHAU CYMORTH GWLADOL, CYMRU

## Rheoliadau Cymorth Gwladol (Symiau at Anghenion Personol) (Cymru) 2005

| | | |
|---|---|---|
| *Wedi'u gwneud* | - - | *8 Mawrth 2005* |
| *Yn dod i rym* | - - | *11 Ebrill 2005* |

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adran 22(4) o Ddeddf Cymorth Gwladol 1948(**1**) ac sydd bellach wedi'u breinio yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru(**2**).

### Enwi, cychwyn a chymhwyso

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Cymorth Gwladol (Symiau at Anghenion Personol) (Cymru) 2005, a deuant i rym ar 11 Ebrill 2005.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys i Gymru yn unig.

### Y swm y mae ei angen at anghenion personol

**2.** Y swm y mae awdurdod lleol yn rhagdybio y bydd ei angen ar berson at ei anghenion personol o dan adran 22(4) o Ddeddf Cymorth Gwladol 1948 yw £19.10 yr wythnos.

### Dirymu

**3.** Drwy hyn, dirymir Rheoliadau Cymorth Gwladol (Symiau at Anghenion Personol) (Cymru) 2004(**3**).

(**1**) 1948 p.29. *Gweler* adrannau 35(1) a 64(1) o Ddeddf Cymorth Gwladol 1948 ar gyfer y diffiniadau o "the Minister" a "prescribed" yn ôl eu trefn, ac erthygl 2 o Orchymyn yr Ysgrifennydd Gwladol dros Wasanaethau Cymdeithasol 1968 (O.S. 1968/1699) a drosglwyddodd holl swyddogaethau'r Gweinidog Iechyd i'r Ysgrifennydd Gwladol.

(**2**) Trosglwyddwyd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol o dan adran 22(4) o Ddeddf Cymorth Gwladol 1948 i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672).

(**3**) O.S. 2004/1024 (Cy.121)

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(**4**).

*D. Elis-Thomas*

8 Mawrth 2005

Llywydd y Cynulliad Cenedlaethol

(**4**) 1998 p.38

## EXPLANATORY NOTE

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn nodi'r swm wythnosol y mae awdurdodau lleol yng Nghymru i ragdybio, pan nad oes amgylchiadau arbennig, y bydd ei angen ar breswylwyr sydd mewn llety a drefnwyd o dan Ran III o Ddeddf Cymorth Gwladol 1948 at eu hanghenion personol.

0 11 Ebrill 2005 ymlaen, rhagdybir y bydd angen £19.10 yr wythnos ar bob preswylydd o'r fath at eu hanghenion personol.

Mae'r Rheoliadau hyn yn disodli Rheoliadau Cymorth Gwladol (Symiau at Anghenion Personol) (Cymru) 2004 sy'n cael eu dirymu ac a oedd yn rhagnodi swm wythnosol o £18.40.